

## CYNGOR TREF/CYMUNED PORTHMADOG

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, Adran 116

### **Hysbysiad o Gyfethol**

RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN fod Cyngor Cymuned Porthmadog yn bwriadu Cyfethol aelodau i lenwi'r llefydd gwag sydd ar gael ar gyfer

**3 x Cynghorydd yng Nghymuned Ddwyreiniol (Ward) .**

**1 x Cynghorydd yng Nghymuned Ynys Galch (Ward) .**

**1 x Cynghorydd yng Nghymuned Orllewinol (Ward) .**

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflawni'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned dywededig. Rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- rydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.<sup>1</sup>

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd(au) gwag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Cyngorwyr Cymunedol, cysylltwch â Chlerc Cyngor Tref Porthmadog, Marian Roberts, Tawelfan, 29, Maes Gerddi, Porthmadog, Gwynedd

LL49 9LE. 01766513709 , [clerccyngtreport@gmail.com](mailto:clerccyngtreport@gmail.com)

Dyddiedig y 24ain Chwefror 2023.

---

<sup>1</sup> Mae rhai pobl penodol wedi'u hanghymhwyso rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y Cyngor, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny sy'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar.

